**EITEM AR YR AGENDA: 16**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo'r adroddiad atodol.

### Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

### Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma'r unfed adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2015 hyd fis Mawrth 2016. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Mae cyfnod swydd A P Young ar y pwyllgor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Mae Mr Young wedi cadarnhau ei fod yn fodlon cael ei ail-benodi ac fe gyflwynir y cynnig hwn i'r Awdurdod ym Mawrth 2016.

Felly, mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20

<u>Aelodau Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 14 Ionawr 2016 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint.

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd yr aelodau ddiweddariad am newidiadau deddfwriaethol i'r gyfundrefn foesegol. Nodwyd fod deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft ar gyfer ymgynghoriad wedi'i chyhoeddi gyda'r bwriad fod y newidiadau hyn, ymysg rhai eraill, yn dod i rym erbyn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol awdurdodau lleol ym mis Mai. Hefyd, cyhoeddwyd deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft ynglŷn â sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd, a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ymdrin â chwynion. Cymeradwywyd ymateb i'w gyflwyno i Llywodraeth Cymru.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglyn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau. Talwyd costau teithio o £9.90 i'r aelodau annibynnol.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.